# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 3 Rhagfyr 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(235)v3

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (0 munud)**

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

**3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (0 munud)**

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

**4 Datganiad gan Kirsty Williams: Cyflwyno Bil arfaethedig Aelod – y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) (30 munud)**

**Dogfennau Atodol**

[Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)]
[Memorandwm Esboniadol]

**5 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)**
**NNDM5625**

**Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
**Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu y dylid datganoli plismona (heblaw am Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol y DU a diogelwch gwladol).

**6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar agwedd Llywodraeth Cymru at hybu masnach a mewnfuddsoddi (60 munud)**
**NDM5644 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i Agwedd Llywodraeth Cymru tuag at Hybu Masnach a Mewnfuddsoddi, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2014.

**Dogfennau Ategol**

[Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes]
[Ymateb Llywodraeth Cymru]

**7 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM5643 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd cynyddu masnach rhwng Cymru ac Unol Daleithiau

America;

2. Yn credu y dylai gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, gael eu heithrio rhag effeithiau y Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig;

3. Yn credu na ddylid caniatáu i'r Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig atal llywodraethau democrataidd rhag trefnu unrhyw wasanaethau eraill ar sail perchnogaeth gyhoeddus;

4. Yn gwrthwynebu cynnwys setliad ar gyfer anghydfod rhwng buddsoddwyr a gwladwriaethau yn y cytundeb;

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch:

a) eithrio gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, o'r Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig; a

b) gwrthod y Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig os yw'r cytundeb terfynol, pan gaiff ei gyflwyno i'w gadarnhau, yn tanseilio pwerau llywodraethau democrataidd i wneud penderfyniadau.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd cytundebau masnach rhyngwladol, fel y Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig, i greu dyfodol economaidd gwell i bobl Cymru;

2. Yn credu y dylai llywodraethau fod yn ymwybodol o bwysigrwydd sefydliadau cenedlaethol, megis y GIG, wrth gytuno ar y Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig; a

3. Yn nodi cynsail partneriaethau masnach presennol sy'n cynnwys dulliau diogelu sy'n eithrio gwasanaethau cyhoeddus allweddol o gytundebau o'r fath.

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwyntiau 2 i 5 a rhoi yn eu lle:

2. Yn croesawu trafodaethau ar fasnach a buddsoddi rhwng yr UE a'r Unol Daleithiau a allai fod werth hyd at £10 biliwn ychwanegol i economi'r DU bob blwyddyn;

3. Yn croesawu sylwadau'r Comisiynydd Ewropeaidd dros Fasnach, Karel de Gucht, a ddywedodd wrth yr International Business Times: "Bydd eithriad i wasanaethau cyhoeddus yn y Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig, ac rydym wedi gwneud hynny'n glir iawn yn ein trafodaethau gyda'r Unol Daleithiau. Byddai hynny'n cynnwys y GIG...";

4. Yn croesawu'r ffaith na fydd y setliad ar gyfer anghydfod rhwng buddsoddwyr a gwladwriaethau yn berthnasol i ddeddfwriaeth yr aelod-wladwriaethau mewn perthynas ag iechyd, diogelwch y cyhoedd neu ddiogelwch; a

5. Yn croesawu'r ffaith bod y Comisiwn Ewropeaidd yn atal dros dro'r agwedd ar y cytuniad sy'n ymwneud â'r setliad ar gyfer anghydfod rhwng buddsoddwyr a gwladwriaethau er mwyn ymgymryd â gwaith ymgynghori pellach.

Gallwch weld yr erthygl o'r International Business Times drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.ibtimes.co.uk/eu-trade-commissioner-karel-de-gucht-confirms-nhs-exemption-ttip-1456538 *[Saesneg yn unig]*

**8 Cyfnod pleidleisio**

**9 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5642 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cymru ar y blaen - gwerthuso Cylchffordd Cymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 9 Rhagfyr 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 26 Tachwedd 2014 i'w hateb ar 3 Rhagfyr 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y strategaeth i'r rhai sy'n dioddef o gyflwr Asperger? OAQ(4)0531(HSS)**W**

**2. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth a ddarperir i bobl ar y sbectrwm awtistig yng Nghymru? OAQ(4)0520(HSS)

**3. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba gynnydd a wnaed mewn trefniadau iechyd a gofal cymdeithasol integredig dros y flwyddyn ddiwethaf? OAQ(4)0530(HSS)**W**

**4. Lynne Neagle (Torfaen):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod anghenion maethol pobl hŷn sy'n byw mewn gofal preswyl yng Nghymru yn cael eu bodloni? OAQ(4)0523(HSS)

**5. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru sydd â phroblemau iechyd meddwl? OAQ(4)0532(HSS)**W**

**6. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu darpariaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau ymataliaeth yng Nghymru? OAQ(4)0521(HSS)

**7. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol gofal heb ei drefnu yng Nghymru? OAQ(4)0516(HSS)

**8. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ariannu byrddau iechyd lleol? OAQ(4)0526(HSS)

**9. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad i driniaethau canser yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0528(HSS)

**10. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau iechyd mewn ardaloedd gwledig? OAQ(4)0515(HSS)

**11. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau meddygon teulu yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0519(HSS)**W**

**12. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio amlfferylliaeth yn GIG Cymru? OAQ(4)0517(HSS)

**13. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer y gwelyau ysbyty sydd ar gael ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(4)0529(HSS)

**14. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio asesiadau effaith ar iechyd yng Nghymru? OAQ(4)0525(HSS)

**15. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamddefnyddio alcohol yng Nghymru? OAQ(4)0518(HSS)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## Gofyn i Gomisiwn y Cynulliad

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.